

**Y Pwyllgor Iechyd a
Gofal Cymdeithasol**

**Health and Social Care
Committee**

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Prif Weithredwyr byrddau iechyd

26 Gorffennaf 2023


Annwyl Brif Weithredwyr

Amseroedd aros y GIG

Fel y gwyddoch efallai, trafododd y Pwyllgor faterion yn ymwneud ag amseroedd aros gyda Chonffederasiwn GIG Cymru a chynrychiolwyr byrddau iechyd ar 12 Gorffennaf 2023. Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn y sesiwn dystiolaeth honno i ofyn am ragor o wybodaeth am nifer o faterion.

Byddwn yn cynnal sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 8 Tachwedd 2023, a bydd rhan o'r sesiwn yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud ag amseroedd aros. Er mwyn llywio'r sesiwn, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu ymateb ysgrifenedig **erbyn 30 Awst 2023** i'r materion a nodir yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Yn gywir



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Atodiad: Amseroedd aros y GIG: cais am wybodaeth

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb i'r materion a ganlyn **erbyn 30 Awst 2023**.

Targedau adfer

Mae dau o'r targedau adfer a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei chynllun ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal wedi'i gynllunio a lleihau rhestrau aros y GIG ym mis Ebrill 2022 eisoes wedi eu methu, ac mae ein rhagamcanion yn awgrymu, ar y lefel bresennol o weithgarwch, y gallai'r dyddiadau targed diwygiedig gael eu methu hefyd.

1. Mae'r data a ryddhawyd fesul bwrdd iechyd yn dangos bod amrywiaeth ar draws byrddau iechyd o ran hyd arosiadau mewn arbenigeddau gwahanol a'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â'r ôl-gronni yn sgil yr amseroedd aros. Pa arbenigeddau sydd fwyaf heriol i'ch bwrdd iechyd, a pha gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r amseroedd aros yn yr arbenigeddau hynny.
2. Pa rôl rydych chi/eich bwrdd iechyd wedi ei chael wrth gynghori'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch gosod y targedau presennol (gan gynnwys mewn cysylltiad â pha arbenigeddau sydd wedi'u cynnwys, neu nad ydynt wedi'u cynnwys). A ddylai bod gan y byrddau iechyd fwy o ran wrth nodi'r targedau.
3. Mae Cynllun Adfer Gofal Wedi'i Gynllunio Llywodraeth Cymru yn nodi pum targed adfer i fyrddau iechyd eu cyrraedd. Mae'r ddau darged cyntaf wedi'u methu. A allwch gadarnhau a yw eich bwrdd iechyd ar y trywydd iawn i gyrraedd y targedau diwygiedig (mewn perthynas â tharged 1 a 2) ac i gyrraedd y tri tharged arall ar amser. Beth mae eich amcanestyniadau presennol yn ei ddangos o ran pryd y bydd eich bwrdd iechyd yn cyflawni pob un o'r targedau adfer.

Y gweithlu

4. A oes arbenigeddau neu rolau penodol y mae eich bwrdd iechyd yn wynebu heriau penodol â hwy o ran recriwtio a/neu gadw staff. Os felly, pa gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â nhw, ac a yw'r rhain wedi'u cynnwys yn eich gwaith Cynllunio Tymor Canolig Integredig (IMTP) (a oes modd i chi roi copi o'ch IMTP diweddaraf i'r Pwyllgor?).
5. Pa gamau y mae byrddau iechyd yn eu cymryd i wella amodau gwaith a llesiant ar gyfer staff gofal iechyd.
6. Rhowch wybodaeth am ddefnydd a chostau staff dros dro a staff asiantaeth yn 2021-22, 2022-23 a 2023-24 (y sefyllfa hyd yma ac unrhyw amcanestyniadau ar gyfer y sefyllfa diwedd y flwyddyn). Hefyd, darparwch wybodaeth am unrhyw dargedau yn eich bwrdd iechyd ar gyfer defnyddio staff o'r fath, neu eu cost, ac amlinellwch pa gamau sy'n cael eu



cymryd yn eich bwrdd iechyd i leihau dibyniaeth ar staff o'r fath (fel sefydlu'r Bartneriaeth Banc Cydweithredol).

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 12 Gorffennaf, dywedodd Cyfarwyddwr Conffederasiwn GIG Cymru wrthym:

"There's huge evidence to show that people tend to stay in their roles longer if they started their career locally and are given that opportunity to develop, and that has big knock-on positive effects for the communities more widely as well."

7. A oes tystiolaeth gan eich bwrdd iechyd chi o gysylltiad achosol rhwng cadw staff ac argaeledd cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn y gymuned neu'r rhanbarth lleol? Os felly, beth mae eich bwrdd iechyd yn ei wneud i sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi a datblygu o'r fath yn cael eu darparu?

Effaith gweithredu diwydiannol

8. Amlinellwch effaith gweithredu diwydiannol diweddar ar ofal cleifion ac ar nifer y cleifion sy'n aros am driniaeth y GIG gan eich bwrdd iechyd. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am faint o lawdriniaethau arfaethedig ac apwyntiadau cleifion allanol a gafodd eu canslo o ganlyniad i weithredu diwydiannol.

Arloesi ac arfer da

Gwyddom fod enghreifftiau o arloesi ym mhob bwrdd iechyd, ond mae gennym bryderon, oni bai bod datblygiadau arloesol llwyddiannus yn cael eu cyflwyno ar draws y byrddau iechyd, y bydd effaith datblygiadau arloesol o'r fath a'r graddau y gallant gyflawni'r trawsnewidiad radical sydd ei angen i fynd i'r afael â'r ôl-groniad yn gyfyngedig.

9. Pa rwystrau sydd i rannu arfer gorau a chyflwyno datblygiadau arloesol llwyddiannus ar draws y byrddau iechyd. Rhwng enghreifftiau hefyd o sut mae eich bwrdd iechyd wedi rhannu arfer da neu arloesiadau llwyddiannus gydag eraill, a sut mae eich bwrdd iechyd wedi gweithredu arfer da a dysgu o arloesiadau a rannwyd gyda chi gan fyrddau iechyd eraill.
10. A allwch amlinellu'r ffyrdd y mae eich bwrdd iechyd yn gweithio gyda Gweithrediaeth y GIG ac yn cael cymorth ganddo, a darparu enghreifftiau o sut mae Gweithrediaeth y GIG yn hwyluso dysgu ar y cyd a gweithio rhanbarthol rhwng gwahanol fyrddau iechyd?
11. Yn ystod y pandemig COVID-19, addasodd y gwasanaethau iechyd gydag ystwythder a chyflymder i adleoli neu symud offer, staff a gwasanaethau i ddiwallu anghenion a oedd angen eu blaenoriaethu. Pa gamau y mae eich bwrdd iechyd wedi'u cymryd i ddysgu o'r profiad hwn, ac i gynnal ystwythder a hyblygrwydd.

Nid yw adnoddau a galw bob amser yn gyfartal ar draws y byrddau iechyd, ac mae cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael ag amseroedd aros yn ymrwymo i gyflwyno modelau gofal rhanbarthol ac ehangach i sicrhau mynediad teg, ar y sail bod 'yr heriau sy'n ein hwynebu yn rhy fawr i fyrddau iechyd fynd i'r afael â nhw ar eu pennau eu hunain'. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 12 Gorffennaf clywsom am rai enghreifftiau o weithio rhanbarthol.

12. Pa gamau y mae eich bwrdd iechyd yn eu cymryd i sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer gweithio rhanbarthol yn cael eu hystyried, eu datblygu a'u gweithredu. Rhowch y wybodaeth ddiweddaraf am sut mae eich bwrdd iechyd yn gweithio gydag eraill yn rhanbarthol.
13. Rhowch wybodaeth am faint o gleifion sydd wedi cael eu trosglwyddo ar draws ffiniau eich bwrdd iechyd ar gyfer gwasanaethau diagnosteg a thriniaeth. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys y cleifion sy'n cael eu trosglwyddo i'ch bwrdd iechyd gan fyrddau iechyd eraill, a'r rhai mae eich bwrdd iechyd wedi'u trosglwyddo i fyrddau iechyd eraill. A oes rhwystrau sefydliadol neu ddiwylliannol yn atal hyn rhag digwydd.

Pwysau tymhorol

Rydym wedi clywed o'r blaen bod y cynnydd i wahanu gofal wedi'i gynllunio oddi wrth ofal brys yng Nghymru wedi bod yn araf. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 12 Gorffennaf pwysleisiodd tystion fod cynllunio ar gyfer y gaeaf 2023-24 eisoes wedi dechrau.

14. Pa mor hyderus ydych chi y gall eich bwrdd iechyd gynnal neu gynyddu lefelau cyfredol o weithgarwch i leihau rhestrau aros y GIG, yn enwedig wrth i ni edrych tuag at fisoedd y gaeaf. Amlinellwch sut y bydd eich bwrdd iechyd yn sicrhau y gall gynnal gweithgarwch yn ystod y gaeaf, gan gynnwys unrhyw gynlluniau ar gyfer sut y bydd eich bwrdd iechyd yn amddiffyn gofal wedi'i gynllunio rhag pwysau brys y gaeaf hwn, er enghraifft drwy wahanu gofal sydd wedi'i gynllunio a gofal brys.

Cefnogi cleifion

15. Pa ddull y mae eich bwrdd iechyd yn ei ddefnyddio i flaenoriaethu rhestrau aros, gan gynnwys cydbwysu'r hyn a allai fod yn ystyriaethau sy'n gwrthdaro o ran angen clinigol a hyd yr amser aros.
16. Faint o gleifion sydd wedi cael eu tynnu oddi ar y rhestrau aros yn eich bwrdd iechyd o ganlyniad i arferion dilysu rhestrau aros.
17. Mae £20 miliwn y flwyddyn wedi'i fuddsoddi gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r broses o roi dull sy'n seiliedig ar werthoedd ar waith ar gyfer adfer yn y tymor canolig, gyda ffocws

ar wella canlyniadau sydd o bwys i gleifion. Sut mae buddsoddiad fel hwn yn ategu'r gwaith y mae byrddau iechyd yn ei wneud i fynd i'r afael â'r ôl-groniad.

Perfformiad ariannol

Rydym wedi ystyried sefyllfa ariannol y byrddau iechyd yn ystod ein gwaith craffu ar gyllidebau drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 a 2023-24, gan gynnwys i ba raddau y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Cyllid y Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2014, h.y. eu dyletswyddau i reoli eu hadnoddau o fewn terfynau cymeradwy dros gyfnod treigl o dair blynedd; ac i baratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig dros gyfnod treigl o dair blynedd a gymeradwyir gan Weinidogion. Yn anffodus, dangosodd ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2023-24 ddirywiad mewn sefyllfaoedd ariannol, gyda chwech allan o'r saith bwrdd iechyd yn rhagweld (fel ym mis Ionawr 2023) gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn.

18. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol eich bwrdd iechyd yn ystod y flwyddyn, a'r rhagamcan diwedd y flwyddyn ar gyfer 2023-24, gan gynnwys a ydych yn rhagweld y byddwch yn cyflawni eich dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 2014. Os nad ydych yn disgwyl cyflawni'r dyletswyddau hyn yn 2023-24, eglurwch pam, a pha gamau a gymerir (a phryd) i sicrhau y bydd y dyletswyddau'n cael eu cyflawni yn 2024-25.

